



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Cyfarfod:	Bwrdd Plismona
Lleoliad:	MS Teams
Dyddiad:	3 Mawrth 2025
Amser:	10am-12pm

Yr Aelodau:	Y Comisiynydd Heddlu a Throseddau, Dafydd Llywelyn (CHTh) Prif Gwnstabl, Dr Richard Lewis (PG) Prif Weithredwr SCHTh, Carys Morgans (PW) Cyfarwyddwr Cyllid, Edwin Harries (CC) Prif Swyddog Cyllid Dros Dro SCHTh, Nicola Davies (PSCDD)
Hefyd yn bresennol:	Swyddog Staff, yr Arolygydd Gemma Starkey (GS) Pennaeth Cyllid Dros Dro, Michelle Reynolds (MR) Cymorth Gweithredol SCHTh, Sophie Morgan (SM)
Ymddiheuriadau:	Prif Swyddog Cyllid SCHTh, Beverley Peatling (PSC SCHTh)

1. Ymddiheuriadau a chyflwyniadau

Croesawodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddau bawb i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Prif Swyddog Cyllid. Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.

2. Diweddariad ar gamau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol

Cam gweithredu rhif	Crynodeb o'r cam gweithredu	Diweddariad
PB 055	Cynlluniau cyflawni adrannol i gael eu cyflwyno i gyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona ym mis Mawrth 2025.	Wedi'i gwblhau Ar yr agenda fel eitem 3a
PB 056	Yr heddlu i ddarparu gwybodaeth i lywio'r ymateb i'r arolwg erbyn 29 Ionawr 2025 er mwyn galluogi SCHTh i gyflwyno'r ymateb erbyn y dyddiad cau.	Wedi'i gwblhau
PB 057	Y Prif Weithredwr i gysylltu â thîm sicrwydd SCHTh ynghylch	Wedi'i gwblhau Cadarnhaodd tîm sicrwydd SCHTh nad oedd wedi cael

	unrhyw adborth neu sylwadau negyddol ynghylch EBIT.	unrhyw adborth na sylwadau negyddol ynghylch EBIT.
PB 058	Sesiwn friffio i'w threfnu ar gyfer y CHTH ynghylch EBIT a chyflwyno algorithm dau a thri ar gyfer troseddau siop-ladrad a difrod troseddol.	Ar y gweill Aros am gadarnhad o'r dyddiad gan yr arolygydd.
PB 059	Adborth gan brif swyddogion ar y pwyllgor dethol: Cylch gorchwyl yr ymchwiliad cyntaf i'w ddarparu i SCHTh.	Wedi'i gwblhau
PB 060	Y CHTH i anfon llythyr at brif weithredwyr y pedwar awdurdod lleol yn ardal yr heddlu ynghylch cyd-ariannu blaenoriaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.	Wedi'i gwblhau

3. Pwnc ffocws:

a) Cynlluniau cyflawni adrannol

Rhoddodd y PG ddiweddariad ar y cynlluniau cyflawni adrannol. Mae'r Cylch Cynllunio Strategol a Sicrwydd (CCSS) newydd wedi'i gynllunio i sicrhau bod gofynion a blaenoriaethau strategol yr heddlu yn gyffredinol gydnaws â'i gilydd ac mae'n gylch parhaus o gasglu tystiolaeth a gwybodaeth. Mae'r CCSS yn sefydlu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ar draws pob maes a bydd yn galluogi'r heddlu i baratoi a gosod cyfeiriad ar gyfer y pedair blynedd nesaf.

- Bydd y CCSS yn cynnig dealltwriaeth glir o'r heddlu a'i berfformiad.
- Mae proses y CCSS yn galluogi adolygu a gwerthuso, dysgu a thystiolaeth effeithiol ar gyfer gwelliant yn y dyfodol ar draws holl weithrediadau a busnes yr heddlu.
- Mae'r CCSS wedi'i gynllunio i addasu a gwella'n barhaus ac mae'n galluogi'r heddlu i wneud penderfyniadau ar sail data cadarn a dadansoddiad o ddata a gwybodaeth.
- Mae cynllunio strategol a gweithgarwch sicrwydd yn broses barhaus ac ailadroddol sy'n ystyried effaith digwyddiadau annisgwyl,

effeithiau newidiadau mewn gwaith sefydliadol neu flaenoriaethau, ac effeithiau cyllidebau a chyllid.

- Mae'r CCSS yn fecanwaith ar gyfer rheoli busnes yr heddlu mewn ffordd strwythuredig, agored a gweladwy.
- Mae'r CCSS yn sicrhau bod yr heddlu yn bodloni ei rwymedigaethau ac mae'n system gadarn o reoli risg a rheolaeth fewnol.
- Mae'r CCSS yn cydnabod rhyngddibyniaethau rhwng y gwahanol swyddogaethau adrannol ac yn sicrhau cydweithrediad a pharhad gwybodaeth ar draws pob maes gweithredu a busnes.
- Mae'r CCSS yn fframwaith sicrwydd sy'n archwilio tystiolaeth yn wrthrychol er mwyn darparu dull cadarn a strwythuredig o nodi a mapio gofynion ar draws y sefydliad cyfan a'u cydgysylltu yn y ffordd orau bosibl.
- Mae cynllunio a sicrwydd yn cynnwys ymgysylltu a chamau gweithredu ar draws yr holl weithrediadau a busnes a bydd yn gallu nodi pa faterion y mae angen mynd i'r afael â hwy yn gynnar.

Rhwng Rhagfyr 2024 a Ionawr 2025, cwblhawyd cynlluniau cyflawni adrannol gan arweinwyr pob adran. Yn dilyn hyn cynhaliwyd digwyddiad ar 11 Chwefror 2025 ym mhencadlys yr heddlu lle rhoddodd yr holl arweinwyr ddiweddiadau byr ar heriau a blaenoriaethau pob maes busnes. Yn ogystal â chanfyddiadau cychwynnol y cynlluniau adrannol a gyflwynwyd, gwahoddwyd arweinwyr i roi adborth ar y broses, a oedd yn gadarnhaol iawn.

Mae adrannau wedi cael eu hannog i berchnogi eu cynlluniau a'u datblygu i gefnogi'r gwaith o reoli'r busnes o ddydd i ddydd. Mae rhai adrannau eisoes wedi ychwanegu tabiau ychwanegol at eu llyfrau gwaith ac wedi lanlwytho dogfennau allweddol i'w ffolderi a rhoi hyperddolenni iddynt yn y sianel Teams i gefnogi hyn. Mae angen cymorth ar nifer fach o gynlluniau i'w cwblhau'n llawn. Bydd y Rheolwr Cynllunio a Sicrwydd newydd yn gweithio gyda'r arweinwyr yn yr wythnosau nesaf i wneud hyn. Yn dilyn hyn, bydd adroddiadau'n cael eu paratoi gan ddefnyddio'r wybodaeth o gynlluniau adrannol.

Mae'r gwaith o baratoi ar gyfer Datganiad Rheoli nesaf yr Heddlu wedi dechrau ac mae'r Ffurflen Gofynion Sefydliadol sy'n cefnogi datblygiad Datganiad Rheoli'r Heddlu yn y broses o gael ei hadolygu a'i diweddarau i ymgorffori gofynion cenedlaethol newydd. Unwaith y bydd wedi'i chwblhau, bydd y Ffurflen Gofynion Sefydliadol newydd yn cael ei hychwanegu at gynlluniau adrannol a bydd y ffurflen bresennol yn cael ei chuddio o'r cynlluniau a'i harchifo, ond bydd yn parhau ar gael i arweinwyr.

Un o nodau allweddol y CCSS oedd sicrhau tryloywder a chynhwysiant yn y broses, ac fe'i cyflawnwyd. Bydd y cyfnod nesaf yma – 2025-2026

yn ymgorffori'r CCSS yn llawn. Y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol sy'n goruchwyllo'r CCSS yn strategol.

Dyweddodd MR fod y Tîm Gwella Gwasanaethau yn gweithio i sicrhau ansawdd y cynlluniau adrannol ac yn codi unrhyw faterion gyda'r arweinwyr adrannol.

Cam gweithredu:- Amrywiaeth o gynlluniau cyflawni adrannol i'w rhannu â'r CHTh, er mwyn rhannu enghreifftiau o'r gwaith sy'n cael ei wneud.

4. Cwestiynau i'r Prif Gwnstabl

a) Pa fesurau hyfforddi ac ymwybyddiaeth sydd ar waith i sicrhau bod swyddogion yn gallu nodi a dilysu presgripsiynau canabis meddygol cyfreithiol yn brydlon a thrin cleifion yn deg?

Dyweddodd y PG fod hyfforddiant a mesurau ymwybyddiaeth yn cael eu cynnwys yn hyfforddiant cychwynnol swyddogion ar y Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau. Ers 1 Tachwedd 2018 bu llwybr cyfreithiol i feddygon ar gofrestr arbenigol y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) ragnodi cynhyrchion sy'n seiliedig ar ganabis at ddefnydd meddyginiaethol o dan amgylchiadau a reolir yn llym. Yn union fel unrhyw feddyginiaeth arall, nid oes trosedd wedi'i chyflawni os caiff canabis ei ragnodi i berson.

Ochr yn ochr â hyn, mae'r hyfforddwyr yn trafod yr anawsterau sy'n codi wrth adnabod rhywun sydd â'r math hwn o gyffur yn ei feddiant. Bydd hyfforddwyr fel arfer yn cynnwys mewnbwn gan dimau diogelu'r cyhoedd yn ogystal â mewnbwn ar gamddefnyddio cyffuriau i gwmpasu safbwynt arbenigwyr ar y pwnc ynghylch tueddiadau cyfredol/diweddar ac ati.

Dyweddodd y PG fod canllawiau meddyginiaethol cenedlaethol ar ganabis wedi'u hysgrifennu a'u bod yn mynd trwy broses ymgynghori.

b) Y mis hwn, lansiaws y Cynllun Heddlu a Throseddau newydd ar gyfer Dyfed-Powys, sy'n amlinellu fy ngweledigaeth i wella ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn ein gwasanaeth plismona dros y pedair blynedd nesaf (2025-2029). Byddwch yn gwbl ymwybodol fod y model plismona yng Nghymru a Lloegr wedi'i adeiladu ar egwyddor plismona drwy gydsyniad sy'n golygu bod grym yr heddlu'n dibynnu ar gymeradwyaeth a pharch y cyhoedd. Yn ôl sawl arolwg dros y blynyddoedd diwethaf yn y DU mae hyder a boddhad y cyhoedd mewn

plismona wedi gostwng. Ym mis Ionawr eleni, aeth cynrychiolwyr o fy swyddfa i gynhadledd y Coleg Plismona a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu ar amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant. Yno clywsom am strategaeth ymddiriedaeth a hyder heddlu Thames Valley a ategir gan strwythurau llywodraethu cadarn. Fel yr amlygwyd yn ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2025-2026, mae'r model ariannu plismona presennol yn golygu bod 52.4% o gyllid cyffredinol Heddlu Dyfed-Powys yn dibynnu ar ein trethdalwyr lleol ac yn cael ei godi drwy braesept y dreth gyngor. Er mwyn sicrhau bod cymunedau lleol yn teimlo eu bod yn cael gwerth am eu cyfraniad, a bod ganddynt wasanaeth plismona effeithiol ac effeithlon sy'n bodloni eu hanghenion a'u disgwyliadau, pa strategaethau penodol sydd gan yr heddlu ar waith i wneud y canlynol: i) mesur a ii) gwella ffydd a hyder y cyhoedd yn ein gwasanaeth plismona yn ardal Dyfed-Powys?

Rhoddodd y PG ymateb wedi'i grynhoi o wybodaeth gan wahanol adrannau gan gynnwys y timau plismona ac atal bro, cyfathrebu corfforaethol a pherfformiad a dadansoddeg i'r cwestiwn a gyflwynwyd. Rhaid i'r timau plismona ac atal bro gynnal un cyfarfod cymunedol ac un digwyddiad 'cwrdd â'r stryd' yn eu hadran. Bydd yr wybodaeth a geir yn y cyfarfodydd hynny yn llywio blaenoriaethau'r timau plismona ac atal bro. Ceir rhagor o fanylion am ymgysylltu o'r fath yn fframwaith perfformiad y timau hynny.

Ar hyn o bryd maent yn cefnogi gwaith pennu gweithgareddau rheng flaen/blaenoriaethau. Lle nodir materion ehangach, mae swyddogion yn defnyddio system Ardal i gofnodi lefelau tensiwn cymunedol. Bydd comandariaid yr ardaloedd plismona lleol ac uwch-dimau arwain lleol yna'n addasu eu hymateb gweithredol lleol yn unol â hynny.

Os ceir system gyda swyddogaeth arolygu, rydym yn obeithiol y bydd yn cynnwys offeryn dadansoddi awtomataidd a fydd yn atal ein staff rhag gorfod dadansoddi data a gasglwyd mewn arolygon eu hunain. Yn dibynnu ar yr hyn y mae'r offeryn/ap yn ei gynnig, bydd yn ein galluogi i benderfynu a ydym yn gosod targedau ar gyfer nifer yr ymatebwyr. Os bydd awtomeiddio, byddem yn ceisio cynyddu nifer yr ymatebwyr gymaint â phosibl.

Gwyddom fod apiau yn bodoli a fydd yn eich galluogi i dargedu ymgysylltu ag unrhyw ran neu ddemograffeg ymhob cymuned. Rydyn ni'n obeithiol y bydd gan yr ap rydyn ni'n ei gaffael y nodwedd hon neu ryw beth

tebyg. Bydd rhai apiau yn cyfleu canlyniadau i gymunedau, neu'n postio ar y cyfryngau cymdeithasol. Unwaith y bydd yr ap wedi'i gadarnhau, bydd yr heddlu'n chwilio am reolwr prosiect i gefnogi ei weithredu a'i integreiddio â systemau eraill yn yr heddlu, yn ogystal â chyflwyno hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer yr holl staff a fydd yn ei ddefnyddio.

ORS sy'n cynnal arolygon barn dioddefwyr i'r heddlu yn achos dioddefwyr troseddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol, cam-drin domestig a stelcio. Mae canfyddiadau'r arolwg yn cael eu cynnwys fel rhan o gyfarfodydd perfformiad yr ardaloedd plismona lleol, cyfarfodydd perfformiad misol y Dirprwy Brif Gwnstabl sy'n canolbwyntio ar ddioddefwyr a chyfarfodydd perfformiad chwarterol y Prif Gwnstabl. Caiff unrhyw themâu eu huwchgyfeirio i'r bwrdd strategol perthnasol ac mae dysgu'r gwersi yn eitem sefydlog ar yr agenda.

Mae'r heddlu wedi cyflwyno prosesau sicrhau ansawdd mewnol ac yn parhau i'w symud ymlaen, gan sicrhau y glynir at bolisiau a bod ymchwiliadau o ansawdd uchel yn cael eu cwblhau. Mae'r canlyniadau'n rhoi cyfleoedd i nodi unrhyw ddysgu sydd ei angen i wella'r gwasanaeth a ddarperir, a'r canlyniadau a gyflawnir. Fel rhan o ddadansoddi yn y dyfodol, rydym yn ceisio cynnwys elfen o werth am arian/ychwanegu gwerth, lle ein nod yw deall y buddion ariannol ac anariannol a gyflawnir gan brosiectau penodol a phrosesau busnes fel arfer.

Mae Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu'r heddlu yn nodi ein dull cyfathrebu ac ymgysylltu hirdymor er mwyn galluogi'r heddlu i gyfathrebu ac ymgysylltu'n effeithiol i gefnogi ein blaenoriaethau a'n Cynllun Heddlu a Throseddau, mewn ymgais i gynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd. Mae hefyd yn nodi amcanion ar gyfer yr adran Cyfathrebu Corfforaethol, a sut y bydd yr adran yn cyflawni. Mae Cyfathrebu Corfforaethol yn y broses o baratoi adroddiad chwarterol i arddangos ein perfformiad, a fydd yn adrodd i'r Bwrdd Plismona Gweithredol.

Mae adran yn y strategaeth sy'n trafod cynulleidfaoedd, ac mae'n esbonio bod dull yr heddlu yn cael ei deilwra yn ôl yr angen. Bydd yr ap plismona bro yn chwarae rhan hanfodol wrth ddatblygu dealltwriaeth yr heddlu o'r gwahanol 'gynulleidfaoedd' – cymunedau – drwy natur ymarferol yr arolwg ac yn gwella gallu'r heddlu i gyfathrebu ac ymgysylltu ar bynciau sy'n bwysig i wahanol gymunedau mewn ffordd sy'n diwallu eu hanghenion. Bydd hyn yn cyfrannu at fesur a gwella ffydd a hyder y cyhoedd.

5. I'w nodi

a) Diweddariad y Prif Gwnstabl

Rhoddwyd diweddariad gan y Prif Gwnstabl i'r bwrdd ynghylch digwyddiadau a gweithrediadau a oedd wedi digwydd ers y cyfarfod diwethaf. Mae'r adroddiad yn cynnwys diweddariadau ar waith heddlu da, yn ogystal â diweddariadau gweithredol a sefydliadol sylweddol.

Dywedodd y PG fod y Gweinidog Plismona wedi cytuno i ymweld ag ardal yr heddlu, ar ddyddiad i'w gytuno ac estynnwyd y gwahoddiad hefyd i'r Fonesig Carol Black, yr adolygydd annibynnol ar gyffuriau.

Cam gweithredu:- Swyddog Staff a chynrychiolydd SCHTh i gydweithio i ddrafftio agenda ar gyfer ymweliad y Gweinidog Plismona.

b) Diweddariad y Comisiynydd Heddlu a Throseddau

Rhoddodd y CHTh ddiweddariad byr ar ei weithgareddau a chyfarfodydd a gynhaliwyd ers y cyfarfod diwethaf, gan gynnwys lansio Cynllun Heddlu a Throseddau'r CHTh, diwrnod ymgysylltu cymunedol yn Sir Benfro a chyfarfod o'r Panel Heddlu a Throseddau a gymeradwyodd y cynnig praesept.

6. Diweddariad ar gyllid

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyllid ddiweddariad ariannol o 21 Chwefror 2025 i aelodau'r Bwrdd Plismona. Rhoddodd y CC grynodedb o sefyllfa ddiweddaraf yr alldro a ddisgwyllir ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol – 2024-2025 – ar sail gwariant hyd at 31 Ionawr 2025. Mae hyn £359,000 o fewn y gyllideb ar hyn o bryd. Ym mis Tachwedd 2024, roedd yr heddlu yn adrodd bod y tanwariant yn £404,000.

Mae'r symudiad yn y gwariant a ragwelir rhwng adroddiadau cyfnod 8 a 10 i'w briodoli i'r gostyngiadau yn y rhagolygon ar gyfer gwariant nad yw'n wariant ar gyflogau o'r sefyllfa wirioneddol ddiweddaraf – mae costau hyfforddi, costau cyfreithiol, yswiriant a chostau tanwydd wedi'u gosod yn erbyn y cynnydd mewn cyllid cyfalaf o refeniw i dalu am y lefel is na'r disgwyl o dderbynebion cyfalaf oherwydd yr oedi wrth werthu eiddo yn 2024-2025.

Roedd y gyllideb a osodwyd ar gyfer 2024-2025 yn rhagdybio codiad cyflog o 2.5% o fis Medi ar gyfer swyddogion a staff. Dyfarnodd y Bwrdd Negodi Tâl godiad cyflog o 4.75%. Talwyd y codiad cyflog i swyddogion ym mis Medi a thalwyd staff (gan gynnwys ôl-dâl) ym mis Hydref. Cadarnhawyd mai £1.2 miliwn yw'r cyllid ychwanegol yn erbyn cost ychwanegol o £1.7 miliwn ac mae wedi'i gynnwys yn y rhagamcaniad ar gyfer swyddogion a staff. Mae cyllidebau swyddogion heddlu yn gweithredu'n is na'r gyllideb oherwydd llithriant o ran recriwtio

trosglwyddeion a nifer y rheini sy'n gadael, wedi'i wrthbwysu gan y cynnydd yn y codiad cyflog. Ar yr un pryd mae cyllidebau staff yr heddlu'n gweithredu dros y gyllideb oherwydd y cynnydd amcangyfrifedig yn y codiad cyflog.

Mae'r rhagamcaniadau'n ystyried amrywiadau sylweddol megis costau contractiol ychwanegol y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol a chontractau meddygol fforensig (y ddalfa). Mae'r rhain yn ychwanegu tua £600,000 at y sylfaen costau yn y flwyddyn gyfredol (rhan o'r flwyddyn gan gynnwys yr holl gostau pontio). Caiff hyn ei osod yn erbyn derbynion llog ychwanegol.

Mae'r sefyllfa o ran goramser yn cael ei monitro'n agos gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol. Mae goramser yr heddlu yn agosach at y gyllideb nag a ragwelwyd mewn misoedd cynharach gyda gorwariant rhagweledig o £200,000 ar gyfer 2024-2025. Mae trosglwyddiad cyllidebol mewn perthynas ag Ymgyrch Ivydene – cyllid y Llywodraeth ar gyfer ardaloedd sydd â risg uchel o ymddygiad gwrthgymdeithasol – wedi'i brosesu ac mae hyn yn cyfrannu at y gostyngiad yn y rhagamcan. Cadarnhawyd yn ddiweddar y bydd y cyllid hwn (£1 miliwn) hefyd ar gael yn 2025-2026.

Mae costau sy'n gysylltiedig ag eiddo yn £300,000 yn is na'r gyllideb oherwydd arbedion ynni ac ad-daliadau ardrethi a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn, ond mae gwariant refeniw ar symudiadau a newidiadau/dodrefn yn y pencadlys yn gwrthbwysu hyn ac yn cael ei ddangos yn erbyn categorïau costau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau a chostau cydweithio/ymgyngori.

Mae'r rhagamcaniad yn cynnwys gor-gyflawniad incwm o £1.0 miliwn gydag incwm buddsoddi ychwanegol o £900,000 yn cyfrif am y rhan fwyaf o hyn. Mae llithriant mewn prosiectau cyfalaf wedi'i adlewyrchu yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig diweddar ar gyfer 2024-2025 (£8 miliwn) ynghyd â chyfraddau llog uwch na'r disgwyl sydd gyda'i gilydd yn arwain at lefel uchel o log a dderbyniwyd. Fodd bynnag, mae costau benthyca tua £200,000 yn uwch nag a ragwelwyd adeg gosod y gyllideb. Mae angen ymgorffori tâl cyllido refeniw uniongyrchol ychwanegol o £700,000 i wrthweithio effaith oedi mewn derbynebion cyfalaf a ddisgwylir o werthu eiddo ac i atal yr angen am fenthyca ychwanegol. Mae'r rhagamcaniad hefyd yn cynnwys diffyg mewn cyllid grant gan Lywodraeth Cymru tuag at gostau swyddogion cefnogi cymunedol yr heddlu, gwarchodaeth frenhinol a phlisma porthladdoedd.

O ran y cronfeydd wrth gefn, mae'r rhagamcaniad yn cynnwys £490,000 a dynnwyd i lawr yn erbyn £1.254 miliwn a dynnwyd i lawr ac a gyllidwyd ar ei gyfer, sy'n golygu y bydd tua £764,000 o gronfeydd wrth gefn ar gael i'w hailddosbarthu yn ychwanegol at y tanwariant a ragwelir o

£359,000. Mae hyn yn unol â'r tybiaethau a oedd yn sail i Gynllun Ariannol Tymor Canolig 2025-2026.

Mae'r sefyllfa ariannol gyffredinol yn gadarnhaol ac yn unol â'r rhagdybiaeth am gario £17.5 miliwn o gyfalaf a refeniw wrth gefn drosodd, sydd wedi'i chynnwys yng Nghynllun Ariannol Tymor Canolig 2025-2026.

c) Diweddariad Adolygiad yr Heddlu

Derbyniodd y bwrdd bapur diweddarau gan Gareth Scanlon, Uwch-swyddog Cyfrifol, Adolygiad yr Heddlu. Dywedodd y Prif Gwnstabl wrth y bwrdd fod yr heddlu wedi rhoi gwybod yn ddiweddar y bydd rhaglen Adolygiad yr Heddlu nawr yn cau. Er gwaethaf hyn, bydd gwaith yn parhau i gyflwyno ffrydiau gwaith model gweithredu'r heddlu hyd at eu cwblhau dan arolygiaeth yr uwch noddwyr.

7. Unrhyw fater arall

a) Swyddogion cefnogi cymunedol yr heddlu

Trafododd y bwrdd yr e-bost gan Paul Morris o Uned Gyswilt yr Heddlu ynghylch yr ymholiad am drosraniad cyllid ar gyfer swyddogion cefnogi cymunedol yr heddlu sydd ar gael i'r heddlu. Cadarnhaodd y Prif Gwnstabl a'r Cyfarwyddwr Cyllid eu bod ill dau'n fodlon ar y sefyllfa y cytunwyd arni'n flaenorol o safbwynt Dyfed-Powys.

Cam Gweithredu:- SCHTh i gadarnhau sefyllfa'r PG a'r CHTh i Paul Morris o Uned Gyswilt yr Heddlu ynghylch dosraniad cyllid ar gyfer swyddogion cefnogi cymunedol yr heddlu sydd ar gael i Ddyfed-Powys.

b) Cyfleoedd ystadau strategol gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru – Gorsafoedd Crucywel, y Gelli Gandryll, Llanfyllin, Arberth, Llandeilo a Llanymddyfri

Dywedodd y CHTh wrth y bwrdd ei fod wedi cael ymholiadau gan y cyfryngau am y penderfyniad ynghylch ystadau a chadarnhaodd y byddai'n gwneud rhai cyfweiliadau â'r cyfryngau ac y byddai'n ailadrodd safbwynt yr heddlu a bod y penderfyniad i adleoli rhai gorsafoedd wedi'i wneud ar ôl ystyried gofynion gweithredol a chynaliadwyedd ariannol yn ofalus. Gorsafoedd yw'r rhain nad oedd ganddynt ddesg flaen, nad oeddent ar agor i'r cyhoedd ac nad oeddent yn bodloni gofynion plismona modern.

Dywedodd y CHTh y cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn ddiweddar ynglŷn â gorsaf dân Crucywel, lle mynegwyd pryderon am ddyfodol yr orsaf dân.

Gofynnodd y CHTH a fu unrhyw gyfathrebu gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru mewn perthynas â'u rhaglen ystadau strategol ehangach. Dywedodd y PG y byddai'r pryderon a godwyd gan y CHTH yn cael eu trafod yn y Grŵp Prif Swyddogion y prynhawn hwnnw ac y byddent yn ceisio sicrwydd gan y gwasanaeth tân, ac y byddai diweddariad yn cael ei roi i'r CHTH yn dilyn hyn.

Cam gweithredu:- Swyddog staff i roi diweddariad i'r CHTH yn dilyn trafodaeth yn y Grŵp Prif Swyddogion a cheisio sicrwydd gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ynghylch cau gorsafoedd tân y bydd yr heddlu yn eu defnyddio.

Dyweddodd y CHTH fod ei swyddfa wedi derbyn negeseuon gan aelodau o'r cyhoedd yn mynegi pryderon am y penderfyniadau ar ystadau, a sefyllfa bosibl gorsafoedd llai o fewn yr heddlu yn y dyfodol. Gofynnodd y CHTH beth fyddai barn yr heddlu am ddyfodol a diogelwch y gorsafoedd penodol hynny. Dywedodd y PG na ellid rhoi unrhyw sicrwydd pendant y byddai gorsafoedd yn parhau o fewn y cymunedau hynny, ond ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynlluniau i dynnu'r penderfyniadau'n ôl.

Bu'r bwrdd yn trafod y cyfathrebu â staff a'r cyhoedd ynghylch cau gorsafoedd heddlu. Cadarnhaodd y CHTH y byddai'n cynnig cyfarfod â chynghorau tref a chymuned yr effeithiwyd arnynt gan benderfyniadau diweddar.

c) Adolygiad Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi

Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at y llythyr a dderbyniwyd oddi wrth Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi mewn perthynas â'r adolygiad y mae'n ei gynnal o'r argymhellion ynghylch camfanteisio ar blant, a'r cais i heddluoedd ymateb erbyn 14 Mawrth 2025 ynghylch y cynnydd a gyflawnwyd ar yr argymhellion. Dywedodd y PG ei fod wedi bod mewn cysylltiad â chyswllt Arolygiaeth Cwnstabiliaeth EF o fewn yr heddlu ac y byddai'n gweithredu yn ôl y gofyn gydag arweinwyr bregusrwydd a chamfanteisio'n rhywiol ar blant yr heddlu. Mae'r meysydd i'w gwella a'r argymhellion o'r arolygiad hwn naill ai wedi'u cymeradwyo'n fewnol neu mae tystiolaeth derfynol yn aros i gael ei chymeradwyo gan y Dirprwy Brif Gwnstabl (DBG).

Cam Gweithredu:- Yr heddlu i ymateb i Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi erbyn 14 Mawrth 2025 ynghylch y cynnydd sydd wedi'i gyflawni ar yr argymhelliad ynghylch camfanteisio ar blant.

d) Diwygio'r gwasanaeth fforensig

Trafododd y bwrdd y llythyr ar y cyd a'r cwestiynau cyffredin a dderbyniwyd ynghylch diwygio fforensig. Holodd y CHTh sut y byddai hyn yn effeithio ar yr heddlu. Dywedodd y PG eu bod yn ymwybodol trwy Gydweithrediad Arfordir y Gorllewin y bydd costau'r heddlu sy'n gysylltiedig â materion fforensig yn codi'n sylweddol y flwyddyn nesaf. Mae'r DBG yn arwain ar Gydweithrediad Arfordir y Gorllewin, a fydd yn ymuno â'r rhaglen fforensig genedlaethol ac yn dod i ben yn ffurfiol. Rhoddodd y PG sicrwydd i'r CHTh ynghylch cymesuredd cyflwyniadau fforensig ac eglurder ynghylch sefyllfa'r heddlu.

e) Cytundeb Cydweithredu S22A – E-recriwtio

Dywedodd y Prif Weithredwr fod cytundeb S22A diwygiedig wedi'i dderbyn mewn perthynas â'r plattform e-recriwtio gyda'r Coleg Plismona. Bydd y Prif Weithredwr yn adolygu'r cytundeb o ran y ddarpariaeth Gymraeg cyn cyfarfod nesaf y Grŵp Prif Swyddogion a chyfarfod Plismona yng Nghymru. Cytunodd y PG a'r CHTh ill dau o ran yr angen am y ddarpariaeth Gymraeg.

Cam gweithredu:- Y Prif Weithredwr i adolygu'r cytundeb S22A mewn perthynas â'r ddarpariaeth Gymraeg ar y plattform e-recriwtio gyda'r Coleg Plismona cyn cyfarfod nesaf y Grŵp Prif Swyddogion a chyfarfod Plismona yng Nghymru.

Cam gweithredu rhif	Crynodeb o'r camau gweithredu o gyfarfod 3 Mawrth 2025	I'w symud ymlaen gan
PB 061	Amrywiaeth o gynlluniau cyflawni adrannol i'w rhannu â'r CHTh, fel bod enghreifftiau o'r gwaith sy'n cael ei wneud yn cael eu rhannu.	Yr heddlu
PB 062	Swyddog Staff a chynrychiolydd SCHTh i gydweithio i ddrafftio agenda ar gyfer ymweliad y Gweinidog Plismona.	Yr heddlu/SCHTh
PB 063	SCHTh i gadarnhau sefyllfa'r PG a'r CHTh i Paul Morris o Uned Gyswllt yr Heddlu ynghylch dosraniad y cyllid sydd ar gael i Ddyfed-Powys ar gyfer swyddogion cefnogi cymunedol yr heddlu.	SCHTh
PB 064	Swyddog Staff i roi diweddariad i'r CHTh yn dilyn trafodaeth yn y Grŵp Prif Swyddogion a cheisio sicrwydd gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru	Yr heddlu

	ynghylch cau gorsafoedd tân y bydd yr heddlu yn eu defnyddio.	
PB 065	Yr heddlu i ymateb i Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi erbyn 14 Mawrth 2025 ynghylch y cynnydd sydd wedi'i gyflawni ar yr argymhelliad ynghylch camfanteisio ar blant.	Yr heddlu
PB 066	Y Prif Weithredwr i adolygu cytundeb S22A mewn perthynas â'r ddarpariaeth Gymraeg ar y platfform e-recriwtio gyda'r Coleg Plismona cyn cyfarfod nesaf y Grŵp Prif Swyddogion a chyfarfod Plismona yng Nghymru.	SCHTH

DIWEDD